

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenuwyr ifanc!

Dod i adnabod

Wyn Mason



Mae Wyn yn byw yng Nghaerdydd, ond daw yn wreiddiol o Lanfarian, ger Aberystwyth. Tan yn ddiweddar roedd e'n uwch ddarlithydd drama ym Mhrifysgol De Cymru, ond erbyn hyn mae'n awdur llawn amser. Mae'n ysgrifennu dramâu llwyfan a radio yn bennaf, ac yn cyd-reddeg y cwmni theatr Os Nad Nawr. Y nofel graffig *Gwlad yr Asyn* yw ei gyfrol gyntaf. Perfformiwyd fersiwn llwyfan ohono yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron eleni.



Crynodeb:

Nofel graffig yw'r llyfr am asyn dof sy'n dioddef o hunanddelwedd gam. Wedi cael ei magu mewn modd gyfan gwbl ddynol, mae hi'n uniaethu'n llwyr gyda bodau dynol. Felly, er bod ganddi gorff asyn, mae ganddi feddylfryd dynol a chreda bod asynnod eraill yn greaduriaid twp ac anwaraidd! Ond, fel canlyniad i ddigwyddiadau'r stori, daw i gwestiynu ei hunaniaeth.

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu *Gwlad yr Asyn*?

Un o'r prif bethau oedd creu'r cyfle i gyd-weithio â fy merch, Efa Blossé-Mason. Mae hi'n animeiddwraig ac yn ddylunydd, ac wedi bod yn darllen nofelau graffig yn gyson ers roedd hi'n blentyn - trwyddi hi des i ar draws nofelau graffig yn y lle cyntaf. Yn ddiweddar, dw i wedi bod yn canolbwyntio ar ysgrifennu dramâu llwyfan, ond ar ôl gweld fy nrama *Gwlad yr Asyn* yn cael ei berfformio, ces i'r syniad o'i haddasu mewn i nofel graffig. Awgrymais hyn i Efa, ac ro'n i wrth fy modd pan gutunodd hi i ddylunio'r llyfr! 'Dyn ni wedi bod yn darlunio a chreu straeon gyda'n gilydd o'r dechrau, ac mae'n wych bod ni nawr yn medru gwneud hynny ar y cyd yn broffesiynol.

Dywedwch ychydig am y stori...

Stori am asen ifanc o'r enw Ari a chafodd ei magu mewn tŷ ar stad o dai, yn union fel petai hi'n berson. O ganlyniad, mae'n meddwl bod hi'n sbesial, yn well nag asynnod eraill. Mae ei pherchnogion newydd am iddi fod yn ddylanwad da ar asyn afreolus o'r enw Cal, a gafodd ei fagu'n wyllt ar ben mynydd. Yn gwbl gyferbynnol iddi hi, mae Cal yn ddrwgdybus o fodau dynol ac felly'n gwrthod cael ei ddoffi. Dilyna'r stori hanes eu perthynas cythryblus. Pa un sy'n mynd i ddylanwadu'n fwyaf ar y llall? A fydd presenoldeb dof Ari yn trawsnewid yr asyn gwrthryfelgar, neu a fydd gwylltyni Cal yn peri i Ari gwestiynu daioni ei magwraeth ddynol?

Oes gennych unrhyw awgrymiadau er mwyn annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er plaser?

Mae darllen yn ffordd o gyfoethogi bywyd. Trwy ddarllen ffuglen, er enghraifft, 'dyn ni'n cael cip olwg ar sut mae eraill yn profi bywyd, a thrwy hyn gallwn ddysgu sut i ymhél â'r byd mewn ffordd mwy teimladwy a sympathetig. Trwy ddarllen, dawn i deimlo'n llai unig, llai ynysig.


carreg-gwalch.cymru

 Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru

